

# Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6311**  
E-bost: **[Philip.Lewis@senedd.cymru](mailto:Philip.Lewis@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**  
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](http://Cylchlythyr)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2023

---

**Awdur:**  
Philip Lewis



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil.....	1
<b>2. Ciplwng ar y Bil .....</b>	<b>2</b>
<b>3. Crynodeb o'r darpariaethau .....</b>	<b>2</b>
Rhan 1 - Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol.....	2
Creu Bwrdd Rheoli Etholiadol .....	2
Cofrestru etholiadol heb gais .....	3
Pwerau peilota etholiadol .....	3
Dyletswydd i adrodd ar gamau a gymerwyd i gynorthwyo pleidleiswyr anabl .....	5
Cwestiynau yn yr arolwg llywodraeth leol .....	5
Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig .....	5
Hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swyddi etholedig	6
Cynlluniau cymorth ariannol .....	6
Cyllid ymgyrchu a gwariant tybiannol .....	6
Ymgyrchwyr trydydd parti .....	7

---

Rhan 2 - Cyrff Etholedig a'u Haelodau .....	8
Adolygiadau o drefniadau etholiadol llywodraeth leol .....	8
Adolygiadau ffiniau atfor .....	8
Argymhellion adolygiad etholiadol .....	8
Dileu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.....	10
Trefn anghymhwyso a dileu cyfnodau gras .....	10
Dylanwad amhriodol.....	11
Pwyllgor Archwilio Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru .....	11
Darpariaeth gyffredinol.....	11
Atodlen 1 .....	12

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)** ar 2 Hydref 2023.

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ("y Cwnsler Cyffredinol"), yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil yn datgan fod ei ddiben cyffredinol fel a ganlyn:

darparu ar gyfer cofrestru etholwyr yn awtomatig yn amodol ar ei dreialu'n llwyddiannus a chryfhau gweinyddu etholiadol drwy sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol. Bydd hefyd yn bwrw ymlaen â diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), gan roi y mwyafrif o swyddogaethau blaenorol y Panel i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn). Bydd y Bil yn ein galluogi i wella hygyrchedd etholiadau datganoledig ar gyfer pleidleiswyr anabl yn ogystal â gwella diogelwch ymgeiswyr drwy foderneiddio a gwella'r diffiniad o drosedd dylanwad gormodol.

Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol **ddatganiad ysgrifenedig** ar 2 Hydref.

Mae'r Bil yn dwyn ymlaen llawer o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys ym **Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol**. Cafodd y Papur Gwyn hwn **ei gyhoeddi ar 11 Hydref 2022**, gyda chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad **wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2023**.

Mae'r Bil ar ei daith drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd ar hyn o bryd. Ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol gerbron y **Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** ar 26 Hydref 2023. Mae'r Pwyllgor wrthi'n ymgynghori ar y Bil, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth ychwanegol dros y misoedd nesaf.

## **Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil**

---

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodedb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn cysylltu â'r adran berthnasol o'r Bil.

## 2. Ciplwng ar y Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 71 o adrannau, wedi'u trefnu'n dair rhan, ac mae ganddo un atodlen.

Rhan 1 - Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol

Rhan 2 - Cyrff Etholedig a'u Haelodau

Rhan 3 - Darpariaeth Gyffredinol

Mae Atodlen 1 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â chydgyssylltu etholiadau.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn cynnwys tablau sy'n nodi'r pwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil a gweithdrefnau craffu'r Senedd y byddant yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r **Datganiad o Fwriad Polisi** yn rhoi rhagor o fanylion am yr is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Bil.

## 3. Crynodeb o'r darpariaethau

### Rhan 1 - Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol

#### Creu Bwrdd Rheoli Etholiadol

---

Mae **Adran 1** o'r Bil yn mewnosod rhan newydd yn **Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013**. Mae'r rhan hon yn rhoi swyddogaethau newydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynghylch cydlynu cyffredinol gwaith gweinyddol etholiadau Cymru.

Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar y Comisiwn i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol ("y Bwrdd"), y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau gweinyddu etholiadol drwyddo. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau a chynghor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Mae **Adran 2** yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau newydd ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a amlinellir yn adran 1.

Byddai **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru** yn cael ei ailenwi'n Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel rhan o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

## **Cofrestru etholiadol heb gais**

---

Mae **Adran 3** y Bil yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ac yn mewnosod adran newydd yn **Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** er mwyn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru, heb fod angen i'r unigolyn gyflwyno cais.

Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wirio hunaniaeth person i fodloni cymhwyster. At hynny, bydd angen iddynt hysbysu personau eu bod yn bwriadu cofrestru, a darparu cyfnod rhybudd o 45 diwrnod i ganiatáu i'r etholwr wneud cais i gael ei gofrestru'n ddiennw, neu ofyn am beidio â chael ei gynnwys ar y gofrestr. Os bydd etholwr yn gwrthwynebu cofrestru, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddilyn y broses bresennol a gwahodd y person i wneud cais i gofrestru.

Mae **Adran 4** o'r Bil yn diwygio Deddf 1983 i ddatgymhwyso'r dyletswyddau presennol a roddir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol, tra bod dyletswyddau newydd a amlinellir yn adran 3 yn cael eu cyflawni.

## **Pwerau peilota etholiadol**

---

Mae **Adran 5** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gyflwyno cynlluniau peilot etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth ddatganoledig a lleol yng Nghymru. Mae'r adran hon yn nodi y gall rheoliadau peilot greu, dileu neu addasu troseddau, cyn belled nad yw cyfnod y carchar yn fwy na blwyddyn, neu'r terfyn cymwys ar **euogfarnau diannod**.

Mae **Adran 6** yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud rheoliadau peilot. Mae'r rhain yn cynnwys pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol anfon ei adroddiad yn gwerthuso'r peilot, a'r gofyniad i geisio caniatâd gan awdurdodau lleol. Os na roddir caniatâd, rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw i argymhellion a wnaed gan Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynghylch a ddylid gwneud y rheoliadau heb ganiatâd yr awdurdod.

Mae **Adran 7** yn nodi gweithdrefnau ar gyfer gosod rheoliadau sy'n ymwneud â chynlluniau peilot yn y Senedd. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y defnyddir y weithdrefn negyddol yn gyffredinol. Bydd cynlluniau peilot nad oes ganddynt



gydsyniad yr awdurdod lleol, neu sy'n creu neu'n ehangu cwmpas trosedd, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae **Adran 8** yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i newid y rhestr o ardaloedd y gall peilot etholiadol redeg ynddynt. Mae'r systemau pleidleisio a ddefnyddir gan y Senedd ac awdurdodau lleol wedi'u heithrio o'r ddarpariaeth hon.

Mae **Adran 9** yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion peilot gyda'r Swyddog Canlyniadau yn yr ardal lle byddai'r cynnig yn gymwys, yn ogystal â chyflwyno cynigion i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae **Adrannau 10, 11, 12 a 13** yn nodi gweithdrefnau i awdurdodau lleol gynnig cynlluniau peilot; i'r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol gynnig cynlluniau peilot ar y cyd; ac i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnig cynlluniau peilot. Mae angen ymgynghori â Gweinidogion Cymru ym mhob achos, yn ogystal â chyflwyno adroddiad sy'n nodi manylion y cynlluniau peilot arfaethedig i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a sefydlwyd yn adran 1 o'r Bil.

Mae **Adran 14** yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i argymhell cynigion ar gyfer cynlluniau peilot, naill ai i brif gyngor neu i Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Mae **Adran 15** yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol, ei gynnwys yn ei adroddiad yn gwerthuso cynigion peilot. Rhaid cyflwyno adroddiadau ar gynigion peilot i Lywodraeth Cymru o fewn cyfnod o chwe wythnos, a rhaid iddynt gynnwys asesiad i weld a yw amcan y peilot yn ddymunol, a'r costau tebygol sy'n gysylltiedig â rhedeg y peilot.

Mae **Adran 16** yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sefydlu fforwm i drafod peilot etholiadol, y mae'n rhaid iddo gynnwys Swyddog Canlyniadau'r awdurdodau yr effeithir arnynt.

Mae **Adran 17** yn nodi'r canllawiau y mae'n rhaid i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau eu cyhoeddi ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am gynllun peilot etholiadol.

Mae **Adran 18** yn nodi'r gofynion ar gyfer gwerthuso peilot etholiadol unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Cynhelir y gwerthusiad hwn gan y Comisiwn Etholiadol, a rhaid iddo gynnwys argymhelliad ynghylch a ddylid mabwysiadu'r cynllun peilot yn barhaol.

Mae **Adran 19** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Bydd yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau

parhaol i'r modd y gweinyddir etholiadau "sy'n debyg" i'r rhai a dreialir mewn cynllun peilot.

Mae **Adran 20** yn nodi gweithdrefn graffu fanylach y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 19.

Mae **Adran 21** yn nodi sut y dylid cyhoeddi deunydd yn ymwneud â chynlluniau peilot etholiadol.

Mae **Adrannau 22, 23 a 24** yn darparu ar gyfer gwneud darpariaethau atodol pellach mewn rheoliadau, diffiniadau o dermau penodol, a mân ddiwygiadau pellach.

## **Dyletswydd i adrodd ar gamau a gymerwyd i gynorthwyo pleidleiswyr anabl**

---

Mae **Adran 25** yn mewnosod adran 5A newydd yn **Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**. Mae'n gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerwyd gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo'r rheini sydd ag anabledd, yn eu gallu i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

## **Cwestiynau yn yr arolwg llywodraeth leol**

---

Mae **Adran 26** yn diwygio **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**, ac yn dileu'r gofyniad i gwestiynau a ffurf yr arolwg monitro amrywiaeth llywodraeth leol gael eu nodi mewn rheoliadau. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod cwestiynau mewn cyfarwyddyd i awdurdodau lleol.

## **Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig**

---

Mae **Adran 27** yn gwneud darpariaeth ynghylch creu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Caiff y platfform ei ddiffinio fel cyfleuster electronig er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol, i etholwyr ynghylch y Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. At hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Senedd, sy'n nodi sut y maent wedi creu a chynnal y platfform, heb fod dros 12 mis ar ôl etholiad.

Mae **Adran 27(4)** yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth a ddylai fod ar gael ar y llwyfan, gan gynnwys "cyhoeddi datganiadau gan ymgeiswyr a gwybodaeth arall am ymgeiswyr".

## **Hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swyddi etholedig**

---

Mae **Adran 28** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwasanaethau ar waith i hybu amrywiaeth o ran nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru.

Gall gwasanaethau gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a phrofiad gwaith.

## **Cynlluniau cymorth ariannol**

---

Mae **Adran 29** yn darparu ar gyfer creu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer y rheini sydd â nodau gwarchoddedig a nodau penodedig.

Mae **Adran 29(1)** yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr mewn etholiadau Cymreig sydd â nodweddion penodol neu amgylchiadau penodol i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad.

Mae **Adran 29(2)** yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cynllun cymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl yn etholiadau Cymru i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan sy'n gysylltiedig â'u hanabledd. Mae hyn yn arwain ymlaen o'r peilot **Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru**, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2021.

Mae **Adran 30** yn rhestru'r rheini na ddylid eu penodi i weithredu cynllun cymorth ariannol. Mae'n cynnwys Aelodau o Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, ac Aelodau o'r Senedd.

Mae **Adran 31** yn darparu diffiniadau sy'n ymwneud â chynlluniau cymorth ariannol.

## **Cyllid ymgyrchu a gwariant tybiannol**

---

Mae **Adran 32** yn diwygio **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** er mwyn egluro mai dim ond pan fydd yr ymgeisydd wedi cyfarwyddo, annog neu awdurdodi gwariant ar ran ymgeisydd yn etholiadau lleol Cymru y dylid ei ystyried.

Mae **Adran 33** yn diwygio **Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000** i gynnwys etholiadau'r Senedd mewn rheolau gwariant tybiannol, pan fo gwariant tybiannol yn cael ei ddsbarthu fel traul etholiad dim ond pan gaiff ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi gan yr ymgyrch.

**Gwariant tybiannol** yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol am eitem neu wasanaeth a'r pris a dalwyd mewn gwirionedd gan ymgeisydd etholiad.

Mae **Adran 34** yn diwygio **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** a **Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000** i egluro y gall y Comisiwn Etholiadol gyhoeddi canllawiau ar dreuliau a dynnir i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae **Adran 35** yn diwygio **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** er mwyn caniatáu i berson ac eithrio'r asiant etholiadau wneud taliadau ar ran ymgyrch ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi y bydd y newid cyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael ei wneud wrth adolygu **Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007**, a elwir fel arall y Gorchymyn Ymddygiad.

### Ymgyrchwyr trydydd parti

---

Mae **Adran 36** yn mewnosod adran 89B newydd yn **Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**. Mae hyn yn dod ag etholiadau'r Senedd i'r drefn a sefydlwyd gan **Ddeddf Etholiadau 2022**, sy'n nodi na chaiff trydydd parti fynd i unrhyw wariant rheoledig dros £700 yn ystod cyfnod a reoleiddir i Gymru, oni bai bod y trydydd parti wedi'i restru yn **adran 88(2) o Ddeddf 2000**.

**Cyfnod datganoledig Cymreig a reoleiddir**: y cyfnod cyn etholiad i'r Senedd, a nodir yn **Atodlen 10 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**, lle mae gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn ddarostyngedig i gyfyngiad penodol.

Mae **Adran 37** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o drydydd partiön a all fynd i wariant rheoledig dros £700. Bydd hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

Mae **Adran 38** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ar wariant rheoledig gan drydydd partiön yn ystod cyfnod a reoleiddir wedi'i ddatganoli i Gymru. Fel rhan o hyn, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori â **Phwyllgor y Llywydd** a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** yn y Senedd.

Mae **Adran 39** yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i **Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**.

## Rhan 2 - Cyrff Etholedig a'u Haelodau

### Adolygiadau o drefniadau etholiadol llywodraeth leol

---

Mae **Adran 40** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi sylw i ddymunoldeb cael cymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer yr aelodau o'r cyngor sydd i'w hethol sydd yr un fath, neu bron yr un fath, ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, wrth gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol llywodraeth leol.

Mae **Adran 41** yn diwygio Deddf 2013 i newid hyd y cyfnod adolygu etholiadol o 10 i 12 mlynedd. At hynny, mae'n cynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio hyn drwy reoliadau.

### Adolygiadau ffiniau atfor

---

Mae **Adran 42** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** er mwyn caniatáu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru adolygu ffin mwy nag un ardal llywodraeth leol atfor mewn un broses adolygu.

Mae **ffiniau tua'r môr** cyfeirio at unrhyw ran o ffin llywodraeth leol sydd o dan y môr, ac nad yw'n ffurfio ffin gyffredin ag ardal llywodraeth leol arall.

### Argymhellion adolygiad etholiadol

---

Mae **Adran 43** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** i egluro na all Gweinidogion Cymru weithredu argymhellion o adolygiad etholiadol (neu benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau) hyd nes y bydd y chwe wythnos diwethaf wedi mynd heibio o'r dyddiad y cawsant yr argymhellion. At hynny, mae'n nodi bod yn rhaid iddynt "roi sylw" i unrhyw sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod o chwe wythnos.

Mae **Adran 44** yn diwygio Deddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried y broses o enwi wardiau etholiadol fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori cyn adolygiad.

Mae **Adran 45** yn diwygio Deddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a

Democratiaeth Cymru, neu awdurdod lleol sy'n cynnal adolygiad, wneud y cyhoedd yn ymwybodol y gellir cyflwyno sylwadau gan y cyhoedd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad.

Mae **Adran 46** yn diwygio Deddf 2013 drwy ychwanegu awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau Iechyd Porthladd a Chomisiynydd y Gymraeg at y rhestr o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â hwy mewn perthynas â'r weithdrefn adolygu.

Mae **Adran 47** yn diwygio Deddf 2013 i ymestyn y cyfnod na chaiff Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru gyhoeddi unrhyw argymhellion yn ymwneud â threfniadau etholiadol awdurdod lleol o 9 mis cyn etholiad lleol, i 12 mis ynghynt.

Mae **Adran 48** yn diwygio Deddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, neu awdurdod lleol, gyhoeddi datganiad ar y diwrnod y bydd arolwg etholiadol yn dechrau, gan nodi'r amserlen ar gyfer yr adolygiad.

Mae **Adran 49** yn diwygio Deddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "wneud pob ymdrech" i wneud penderfyniad ar argymhellion adolygiad etholiadol o fewn tri mis i'w derbyn.

Mae **Adran 50** yn diwygio Deddf 2013 i alluogi Gweinidogion Cymru i oedi adolygiadau etholiadol. Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â defnyddio'r pŵer hwn i oedi adolygiad am gyfnod sy'n fwy na chyfanswm o 9 mis, p'un a yw'r saib yn un cyfnod o 9 mis neu'n fwy nag un cyfnod o gyfanswm o 9 mis.

Mae **Adran 51** yn diwygio Deddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y mae wedi'i wneud i adolygu enwau cymunedau, newidiadau i ffiniau cymunedol, newidiadau cynghorau cymuned a threfniadau etholiadol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru.

Mae **Adran 52** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol 1972** i'w gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned roi hysbysiad electronig o unrhyw benderfyniad y mae'n ei basio i ddod yn dref i Weinidogion Cymru, y prif gyngor a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae **Adrannau 53 a 54** yn mewnosod adrannau newydd yn Neddf 2013 gan osod dyletswyddau cyhoeddi amrywiol yn ymwneud ag adolygiadau etholiadol ar brif gynghorau a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae **Adran 55** yn gwneud darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud ag adolygiadau etholiadol.

## **Dileu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

---

Mae **Adran 56** yn diwygio **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** i ddiddymu **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**. Y Panel yw'r corff annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am lwfansau a phensiynau ar gyfer amrywiol gyrff cyhoeddus, gan gynnwys prif gynghorau.

Mae **Adran 57** yn mewnosod adran newydd yn y **Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** i roi effaith i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gymryd pwerau'r Panel ynghylch taliadau. Mae'r Bil yn nodi y byddai hyn yn cychwyn o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025.

Mae **Adran 58** yn trosglwyddo'r holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sydd wedi'u breinio ym Mhanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae **Adrannau 59 a 60** yn gwneud mân ddiwygiadau sy'n ymwneud â diddymu'r Panel a throsglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn.

## **Trefn anghymhwysu a dileu cyfnodau gras**

---

Mae **Adran 61** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** i anghymhwysu cynghorwyr tref a chymuned rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. Daw hyn â'r drefn anghymhwysu ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned yn unol â'r drefn bresennol sy'n anghymhwysu aelodau o brif gynghorau rhag dod yn Aelodau o'r Senedd.

At hynny, mae **Adran 61** yn dileu'r cyfnodau gras a ddarperir ar hyn o bryd i Aelodau o'r Senedd sydd hefyd naill ai'n Aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu brif gyngor, fel bod yn rhaid iddynt ymddiswyddo ar unwaith o'r swyddi eraill hyn yn ddiethriad.

Mae **Adran 62** yn mewnosod is-adran newydd yn **Neddf Llywodraeth Leol 1972** i anghymhwysu personau na chaniateir iddynt sefyll fel ymgeisydd neu fod yn aelod o gyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon rhag aelodaeth llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae **Adran 63** yn mewnosod paragraff newydd i **Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** sy'n datgan bod personau na chaniateir iddynt sefyll fel ymgeisydd neu fod yn aelod o gyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon, wedi'u hanghymhwysu rhag ymgeisyddiaeth i'r Senedd ac aelodaeth o'r Senedd.

## Dylanwad amhriodol

---

Mae **Adran 64** yn dod ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn unol â'r drosedd wedi'i diweddarau o ddylanwad amhriodol sydd wedi'i chynnwys yn **Neddf Etholiadau 2022**. Mae'n diwygio **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** i gynnwys Cymru yn y diffiniad o ddylanwad gormodol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau yn Lloegr.

**Mae'r Comisiwn Etholiadol yn diffinio** y drosedd o ddylanwad amhriodol (neu "dylanwad gormodol" yn ôl geiriad y Comisiwn Etholiadol) mewn etholiad fel "pan fydd rhywun yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio, grym neu drais i orfodi rhywun i bleidleisio mewn ffordd benodol, neu beidio â phleidleisio o gwbl."

## Pwyllgor Archwilio Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

---

Mae **Adran 65** yn diwygio **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio.

Mae **Adran 66** yn diwygio Deddf 2013 i roi pwerau ychwanegol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ynghylch codi tâl am dderbyn nwyddau neu hyfforddiant.

## Darpariaeth gyffredinol

---

Mae **Adran 67** yn datgan bod rhaid i reoliadau a wneir o dan y Bil beidio â chynnwys darpariaethau sy'n effeithio ar awdurdodau a gedwir yn ôl, o dan **atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**.

Mae **Adran 68** yn darparu diffiniadau o eiriau a thermau penodol a ddefnyddir yn y Bil.

Mae **Adran 69** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, deilliadol, canlyniadol, trosiannol neu arbed i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil.

Mae **Adran 70** yn nodi pryd y bydd darpariaethau yn y Bil yn dod i rym.

Mae **Adran 71** yn darparu teitl byr y Bil.



## **Atodlen 1**

Mae **Atodlen 1** i'r Bil yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol, darpariaethau treialu, cyllid ymgyrchu a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.